**Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.**
**Rhagfyr 2022 – Rhagfyr 2023.**

## Cefndir

1. Mae Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DACau") yn cynnwys prosiectau seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol. Fel sy'n ofynnol o dan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf Gynllunio"), gwneir ceisiadau cynllunio DAC i Weinidogion Cymru.

2. Mae adran 62L(2) o'r Ddeddf Gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio DAC cyn diwedd y cyfnod penderfynu rhagnodedig, sef 36 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y derbynnir y cais DAC gan Weinidogion Cymru.

3. Mae adran 62L(5) o'r Ddeddf Gynllunio yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad i (a) atal dros dro redeg y cyfnod penderfynu mewn achos penodol am gyfnod a bennir yn yr hysbysiad a (b) terfynu, lleihau neu ymestyn cyfnod atal presennol.

4. Mae adran 62L(8) o'r Ddeddf Gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach) adroddiad blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a osodir gan adran 62L(2) ac arfer eu swyddogaethau o dan adran 62L (5).

5. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adroddiad blynyddol sy'n ofynnol gan adran 62L(8) o'r Ddeddf Gynllunio.

6. Penderfynodd Gweinidogion Cymru ynghylch pedwar cais cynllunio DAC rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Rhagfyr 2023. Penderfynwyd ar bob cais o fewn y cyfnod penderfynu statudol. Defnyddiwyd pwerau atal dros dro ar gyfer pob un o'r ceisiadau. Ceir manylion yn yr Atodiad amgaeedig.

7. Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru benderfyniadau i wrthod 2 gynllun fferm (“Fferm Solar Gwynllŵg” - CAS-01772-Z5P5D2 a “Fferm Solar Rush Wall” - DNS/3220457). Fodd bynnag, diddymwyd y penderfyniadau hyn gan y llysoedd a bydd angen i Weinidogion ailbenderfynu ar y ceisiadau.

# Atodiad

**Penderfyniadau DAC, Rhagfyr 2022 – Rhagfyr 2023.**

| **Cais cynllunio DAC** | **Penderfyniad** | **Penderfyniad wedi'i wneud o fewn cyfnod penderfynu o 36 wythnos?** | **Cyfanswm nifer yr wythnosau a gymerwyd i benderfynu (ac eithrio unrhyw gyfnod atal)** | **Pwerau atal dros dro wedi'u defnyddio?** | **Rheswm dros atal dros dro** |
|---|---|---|---|---|---|
| Fferm Solar Penpergwm | Wedi'i ganiatáu | Do | 35 wythnos 4 diwrnod | Do | Er mwyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ac ymgynghori arni. |
| Fferm Wynt Rhoscrowther | Wedi'i ganiatáu – 16/01/23 | Do | 36 wythnos | Do | Er mwyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ac ymgynghori arni. |
| Parc Solar Ynys Môn | Wedi'i ganiatáu – 17/03/2023 | Do | 36 wythnos | Do | Er mwyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ac ymgynghori arni.<br><br>Er mwyn cael rhagor o amser i ystyried adroddiad yr arolygydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fferm Solar Bretton Hall | Wedi'i ganiatáu – 19/12/2023 | Do | 36 wythnos | Do | Er mwyn cael rhagor o amser i ystyried adroddiad yr arolygydd. |
| Fferm Solar Maesmawr – tir rhwng Pentre'r Eglwys ac Ystad Ddiwydiannol Trefforest | Wedi'i ganiatáu – 21/12/2023 | Do | 36 wythnos 5 diwrnod | Do | Er mwyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ac ymgynghori arni.<br><br>Er mwyn ymgynghori ar wybodaeth dechnegol ychwanegol |